*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 1026 (Cy. 264)

# DŴR, CYMRU
# ADNODDAU DŴR, CYMRU

## Gorchymyn Adnoddau Dŵr (Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *24 Hydref 2017* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *31 Hydref 2017* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ionawr 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 10(1) o Ddeddf Dŵr 2003(**1**).

### Enwi a chymhwyso

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Adnoddau Dŵr (Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2017 a daw i rym ar 1 Ionawr 2018.

### Dirymu Gorchmynion

**2.**—(1) Mae'r Gorchmynion yn Rhan 1 o'r Atodlen(**2**) wedi eu dirymu.

(2) Mae'r Gorchmynion yn Rhan 2 o'r Atodlen wedi eu dirymu i'r graddau y maent yn ymwneud â dyfroedd mewndirol neu strata tanddaearol yng Nghymru.

(**1**) 2003 p. 37. Mae adran 10(3) yn darparu mai'r Cynulliad yw'r awdurdod priodol mewn perthynas â dirymu Gorchymyn sy'n ymwneud â dyfroedd mewndirol neu strata tanddaearol sy'n gyfan gwbl yng Nghymru, ac mewn perthynas â'r rhan Gymreig o ddyfroedd mewndirol neu strata tanddaearol sy'n rhannol yn Lloegr ac yn rhannol yng Nghymru. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) Gwnaed y Gorchmynion yn yr Atodlen o dan adran 25 o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1963 (p. 38) ("Deddf 1963"). Diddymwyd yr adran hon gan adran 3(1) o Ddeddf Cydgrynhoi Dŵr (Darpariaethau Canlyniadol) 1991 (p. 60) ("Deddf 1991"), a Rhan 1 o Atodlen 3 iddi. Mae adran 2(2) o Ddeddf 1991, a pharagraff 1 o Atodlen 2 iddi, yn darparu bod unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf 1963 i gael effaith fel pe bai wedi ei gwneud o dan adran 33 o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 (p. 57).

*Lesley Griffiths*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

24 Hydref 2017

## YR ATODLEN

Erthygl 2

### RHAN 1

Gorchymyn Awdurdod Afonydd Gwynedd (Eithriadau i Reoli) 1965(**3**)

Gorchymyn De-orllewin Cymru (Eithriadau i Reoli) 1965(**4**)

Gorchymyn Awdurdod Afonydd Morgannwg (Eithriadau i Reoli) 1966(**5**)

Gorchymyn Awdurdod Afon Wysg (Eithriadau i Reoli) 1973(**6**)

### RHAN 2

Gorchymyn Awdurdod Afonydd Dyfrdwy a Chlwyd (Eithriadau i Reoli) 1966(**7**)

Gorchymyn Awdurdod Afon Hafren (Eithriadau i Reoli) 1967(**8**)

Gorchymyn Awdurdod Afonydd Mersi a Weaver (Eithriadau i Reoli) 1968(**9**).

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchmynion y bernir iddynt gael eu gwneud o dan adran 33 o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 (p. 57). Mae'r Gorchmynion hynny yn darparu esemptiadau i'r cyfyngiadau ar dynnu dŵr yn adran 24 o'r Ddeddf honno.

Lluniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn cysylltiad â Deddf Dŵr 2003 (p. 37). Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn nodi effeithiau'r dileu esemptiadau i'r cyfyngiad ar dynnu dŵr y mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud ag ef. Lluniwyd asesiad effaith pellach mewn cysylltiad ag awdurdodiadau newydd i dynnu dŵr ym mis Mehefin 2017. Gellir cael copïau o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r asesiad effaith oddi wrth: Y Gangen Polisi Dŵr, Yr Is-adran Dŵr, Gwastraff, Effeithlonrwydd Adnoddau a Llifogydd, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

---

(**3**) O.S. 1965/1661.
(**4**) O.S. 1965/1970.
(**5**) O.S. 1966/309.
(**6**) O.S. 1973/1953.
(**7**) O.S. 1966/646.
(**8**) O.S. 1967/1971.
(**9**) O.S. 1968/910.